# CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU

## COFNODION:

**Dyddiad:** 16eg Ionawr 2001
**Amser:** 9:30 a.m.
**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Presennol:**

| | |
|---|---|
| Mick Bates (Cadeirydd) | (Democrat Rhyddfrydol) |
| Rosemary Butler | (Llafur) |
| Glyn Davies | (Ceidwadwr) |
| Ron Davies | (Llafur) |
| Val Feld | (Llafur) |
| John Griffiths | (Llafur) |
| Pauline Jarman | (Plaid Cymru) |
| Dr Dai Lloyd | (Plaid Cymru) |
| Owen John Thomas | (Plaid Cymru) |
| **Swyddogion:** | |
| John Turnbull | Ymgynghorydd Cyfreithiol |
| Huw Davies | Ymgynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol |
| Adrian Green | Clerc y Pwyllgor |
| Julie Owen | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Dim

**Eitem 1: Cofnodion y cyfarfod blaenorol a materion sy'n codi: LEG-30-2000 (min)**

1.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19eg Rhagfyr 2000.

**Eitem 2: Adroddiad y Cadeirydd**

2.1 Croesawodd y Cadeirydd Huw Davies i'w gyfarfod swyddogol cyntaf fel Ymgynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol newydd y Pwyllgor. Diolchodd y Pwyllgor i Dylan Hughes, yr Ymgynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol blaenorol, am ei waith ardderchog ar ran y Pwyllgor.

**Eitem 3: Gorchmynion y Cynulliad i'w Hystyried**

**LC149: Rheoliadau Cig Ffres (Dulliau Rheoli Cig Eidion) (Rhif 2) (Diwygio) (Cymru) 2000**
3.1 Cyflwynodd Mr Turnbull ei adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaed y rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor y gallai fod yna achos i wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar sail a nodwyd yn Rheol Sefydlog 11.5 mewn perthynas ag effaith barhaus Rheoliad 3 o Reoliadau 1996, absenoldeb testun Cymraeg, argaeledd cyfleusterau ar gyfer yr "prawf cyflymder a gymeradwywyd" ac effeithiolrwydd ymgynghoriad statudol. Mewn perthynas ag absenoldeb testun Cymraeg eglurodd yr Ymgynghorydd Cyfreithiol fod hyn yn golygu na fyddai gan unrhyw gyfieithiad Cymraeg a wneir yn y dyfodol unrhyw statws swyddogol. Roedd y Pwyllgor o'r farn fod hyn yn destun pryderon difrifol ynghylch dilysrwydd cyfartal y Gymraeg a'r Saesneg, ac roedd yn bryderus y gallai hyn osod cynsail ac nid oedd yn argyhoeddedig nad oedd amser digonol ar gyfer paratoi drafft dwyieithog.

3.3 Cytunodd yr aelodau i alw ar y weithdrefn a nodwyd yn Rheol Sefydlog 11.4.

Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r Cadeirydd yn gyntaf hysbysu'r Ysgrifennydd Cynulliad perthnasol o fwriad y Pwyllgor i gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn datgan y dylai rhoi sylw arbennig i unrhyw ddeddfwriaeth cyn cyflwyno adroddiad o'r fath a rhoi cyfle i'r Ysgrifennydd Cynulliad ymateb ac ateb unrhyw gwestiynau a godwyd. **Gweithredu: Ymgynghorydd Cyfreithiol/Clerc**

**LC150: Rheoliadau Deunydd Risg Penodedig (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2000**
3.4 Cyflwynodd Mr Turnbull ei adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaed y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.5 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r gorchymyn ar unrhyw sail a nodwyd yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor rhai sylwadau cyffredinol yr oedd o'r farn y dylid eu cofnodi yn ei Adroddiad.

3.6 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y rheoliad drafft hwn fel LC150 (Adroddiad).

**LC151: Rheoliadau Gwartheg (Adnabod Anifeiliaid Hÿ n) (Cymru) 2000**
3.7 Cyflwynodd Mr Turnbull ei adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaed y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.8 Ar ôl ystyried adroddiad yr Ymgynghorydd Cyfreithiol, ystyriodd yr aelodau fod yna faterion y gellid fod angen adrodd yn eu cylch o dan Reol Sefydlog 11.5. Nid oedd yn glir ar y dechrau pa bwerau a oedd ar gael i Arolygwyr o dan adran 10(2) i wirio cofnodion pe byddai'r ddeiliadaeth yng Nghymru ond bod y gwarcheidwad yn byw yn Lloegr (neu i'r gwrthwyneb).

3.9 Cytunodd yr aelodau i alw ar weithdrefn a nodwyd yn Rheol Sefydlog 11.4. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i’r Cadeirydd yn gyntaf hysbysu’r Ysgrifennydd Cynulliad perthnasol o fwriad y Pwyllgor i gyflwyno adroddiad i’r Cynulliad yn datgan y dylai rhoi sylw arbennig i unrhyw ddeddfwriaeth cyn cyflwyno adroddiad o’r fath a rhoi cyfle i’r Ysgrifennydd Cynulliad ymateb ac ateb unrhyw gwestiynau a godwyd. **Gweithredu: Ymgynghorydd Cyfreithiol/Clerc**

3.10 Yn ystod y drafodaeth teimlwyd nad oedd cylch gwaith y Pwyllgor yn rhoi cyfle addas iddo asesu effeithiolrwydd Deddfwriaeth drafft ac yn bwysicach, nad oedd Pwyllgorau pwnc yn cael y cyfle i edrych ar y polisi. Cytunodd y Pwyllgor fod angen tynnu sylw Pwyllgor Adolygu Cynulliad Cenedlaethol Cymru at yr angen am ddadl ehangach ar fewnbwn polisi yn y broses ddeddfwriaethol.

3.11 Yn sgîl yr uchod cytunodd yr Aelodau gynnal cyfarfod anffurfiol er mwyn trafod hyn a’r mater cysylltiedig, ond ar wahân, sef a ellir ehangu rôl archwilio’r Pwyllgor (o fewn cyfyngiadau adran 58(7) Deddf Llywodraeth Cymru) i gynnwys rôl o archwilio effeithiolrwydd (neu fel arall) isddeddfwriaeth. **Gweithredu: Clerc**

**Eitem 4: Gohebiaeth y Pwyllgor**

**Llythyr oddi wrth y Gwir Anrhydeddus Rhodri Morgan AC, Prif Weinidog Par: Teitlau Cabinet y Cynulliad Cenedlaethol**

4.1 Dywedodd y Cadeirydd ei fod erbyn hyn wedi derbyn ymateb gan y Prif Weinidog i lythyr a anfonwyd gan Dr Dai Lloyd (Cadeirydd Dros Dro) ar ran y Pwyllgor ar 1af Tachwedd 2000 mewn perthynas â’r sefyllfa gyfreithiol ar y defnydd o’r term "Gweinidog y Cynulliad" pan fo’r term "Ysgrifennydd Cynulliad" yn deitl a nodir yn Neddf Llywodraeth Cymru ac mewn Rheolau Sefydlog. Cyfeiriodd y mater at newidiadau a gyhoeddwyd mewn trafodaeth yn ystod y Cyfarfod Llawn ar 17 Hydref 2000.

4.2 Yn ei ymateb dywedodd y Prif Weinidog fod y Pwyllgor yn anghywir i gymryd yn ganiataol bod yn rhaid i "Prif Ysgrifennydd y Cynulliad" ac "Ysgrifennydd y Cynulliad" barhau i gael eu defnyddio ar ddogfennau cyfreithiol. Cytunwyd bod hyn yn arwydd o gamddealltwriaeth ynghylch y pwynt y bu’r Pwyllgor yn ceisio’i wneud yn y llythyr dyddiedig 1af Tachwedd. Roedd y Pwyllgor wedi cyfeirio at ddatganiad y Prif Weinidog yn y Cyfarfod Llawn ar 17 Hydref ynghylch "dogfennau cyfreithiol". Nid oedd llythyr y Prif Weinidog yn rhoi eglurhad ynglyn â "dogfennau cyfreithiol" ac roedd yn groes i sylwadau’r Prif Weinidog yn y Cyfarfod Llawn ar 17 Hydref 2000.

4.3 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu eto at y Prif Weinidog er mwyn datrys y mater hwn. **Gweithredu: Clerc.**

**Eitem 5: Unrhyw fusnes arall a Dyddiad y cyfarfod nesaf**

5.1 Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 23 Ionawr 2001.

## Adroddiadau a Atodir

- LC150